

Clefyd Johne

Haint cronig yw clefyd Johne a achosir gan *Mycobacterium avium* isrywogaeth *Paratuberculosis*. Clefyd nychu ydyw, lle y mae gwartheg yn dangos archwaeth da ond yn dioddef o ddolur rhydd parhaol ac yn colli pwysau, sy'n arwain at farwolaeth yn y pen draw. Mae'r cyfrwng heintus yn cael ei ollwng yn yr ysgarthion, ond gellir hefyd gael ei basio yn y colostrwm. Lloi ifainc gan mwyaf sy'n tueddu i gael yr haint; fodd bynnag nid yw'r arwyddion clinigol yn dod yn amlwg ond wrth i'r anifail aeddfedu, fel arfer ar ôl 3-6 oed. Dros amser, gall y clefyd ddod yn fwyfwy sefydledig mewn buches neu frîd.

Ymlediad clefyd Johne o fferm i fferm: Mae'r clefyd yn gallu cael ei gyflwyno i fuches trwy brynu anifail heintiedig, defnyddio tail o fuches heintiedig (gan y gall y pathogen fod yn hyfyw am hyd at 12 mis mewn ysgarthion), gadael i wartheg yfed o gyrsiau dŵr halogedig a chan fywyd gwyllt.

Ymlediad clefyd Johne o fewn buchesi: Unwaith bod y clefyd yn bresennol yn y fuches, gall ymledu'n rhwydd o anifail i anifail. Bwyd a dŵr sydd wedi'u halogi gan ysgarthion, cadeiriau a thethi budr, a lloi sy'n yfed llaeth/colostrwm o fuwch heintiedig fydd prif ffynonellau'r haint.

Rheoli clefyd Johne

1. Profi trwy Gynllun Iechyd Gwartheg a difa gwartheg heintiedig:

Mae hyn yn golygu prawf gwaed blynyddol i'r holl wartheg sy'n ddwy flwydd neu'n hŷn, difa'r adweithyddion a'u hepil a phrofi ac ynysu unrhyw stoc sydd newydd gyrraedd oni bai eu bod yn dod o fuches ardystiedig. Y gost yn fras am brofi yw £7 y fuwch y flwyddyn. Gall problemau godi gyda'r weithdrefn brofi pan fydd ymateb imiwnedd hwyr yn atal canfod gwartheg heintiedig yn gynnar. Felly, er bod y prawf yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn gallu dangos ychydig adweithyddion yn unig, efallai y bydd y broblem yn fwy nag y mae'r prawf cychwynnol yn ei awgrymu. Am hynny, mae angen profi a difa dros gyfnod hirfaith i gyrraedd statws diglefyd. I fuchesi sy'n cael eu profi'n rhydd rhag y clefyd, mae profi'n cadarnhau bod y stoc yn ddiglefyd ac yna'n cynnal y statws hwnnw, gan gynyddu gwerth y stoc magu. I fuchesi y ceir eu bod wedi'i heintio â'r clefyd, gall profi a difa leihau colledion oherwydd y clefyd, gwella gwerth a chynhyrchiant buchod i'w difa, gan arwain at statws diglefyd ac ardystio yn y pen draw. Oherwydd cyfnod magu hir y clefyd, yr hiraf yn y byd y mae'r fuches wedi'i phrofi'n rhydd o glefyd Johne y lleiaf yn y byd fydd y perygl mai cariwyd isglinigol y clefyd yw'r anifeiliaid yn y fuches - felly pan fyddwch yn prynu gwartheg o fuchesi ardystiedig, gofynnwch bob tro am faint maent wedi bod yn ddiglefyd.



Canolfan Organig Cymru · Ffeithlen Rhif G3 - Ebrill 2010

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

2. Gwella hylendid y fuches:

Sicrhewch eich bod yn darparu porthiant, dŵr ac amgylchedd lloia glân. Er enghraifft, edrychwch sut y mae'r porthiant yn cyrraedd y sied - a yw'r bwcedi llwytho ar y peiriannau'n cael eu glanhau ar ôl carthu? A fydd teiars y peiriannau'n teithio drwy ardaloedd budron ac yna i ardaloedd bwydo glân? I wartheg sy'n lloia dan do, gwnewch yn siŵr fod y cadeiriau'n lân cyn i'r lloi sugno trwy ddarparu gwelltach glân a golchi'r cadeiriau os bydd modd. Dylid glanhau cafnau dŵr yn y beudai'n rheolaidd a'u gosod y tu allan i'r gorlan, i leihau'r perygl o gael eu halogi ag ysgarthion.

3. Newidiadau rheoli:

Lloia – Yn ddelfrydol, dylai'r lloia ddigwydd yn yr awyr agored yn y gwanwyn a dylech ddiddyfnu yn yr hydref cyn eu rhoi'r gwartheg dan do. Os yw'r lloia'n digwydd dan do, cadwch y gwartheg mewn grwpiau bach, gyda gwellt glân, yn ddelfrydol gydag ardal ddioli i'r lloi orwedd i ffwrdd o'r buchod. Syniad doeth hefyd yw gosod powlenni yfed ar wahân i'r lloi.

Gwartheg cadw - Buchesi caeedig neu wartheg cadw gyda statws diglefyd sydd orau. Dylid ystyried hyd yr ardystio wrth brynu anifeiliaid. Bydd lloi heffrod a anwyd yn yr awyr agored yn y gwanwyn yn peri'r risg leiaf o ran eu cadw fel heffrod magu; peidiwch â chadw lloi mamau heintiedig fel rhai cadw.

Cyrsiau dŵr – Dylid cyfyngu mynediad i byllau, afonydd, nentydd ac yn y blaen trwy ffensio fel na ellir yfed dŵr halogedig.

Gwastraff fferm - Ni ddylid pori unrhyw gaeau lle y mae slyri neu dail fferm wedi'i daenu am o leiaf bedair wythnos yn ddelfrydol. Dylid compostio tail fferm am o leiaf 12 mis cyn ei daenu, gan fod pathogen clefyd Johnne yn dal i fyw yn yr amgylchedd am y cyfnod yma. Chwistrellu bas yw'r ffordd orau o roi slyri ar y tir.

Cynllunio iechyd – Y ffordd orau o osgoi problemau yw eu hadnabod yn gynnar, cofnodi data, derbyn cyngor arbenigol a milfeddygol, creu cynllun gweithredu, ei roi ar waith, gan werthuso'r canlyniadau'n rheolaidd.

4. Cymerwch ragofalon bioddiogelwch:

Dylid monitro risg gydag anifeiliaid cadw, gan gynnal buches gaeedig os bydd modd gan brynu gwartheg cadw a theirw o fuchesi ardystiedig. Os prynnwch stoc gan fuchesi di-ardystedig, dylid wneud prawf gwaed a carthion ac eu rhoi mewn cwarantyn hyd gael canlyniadau y prwaf. Dylid ynysu unrhyw stoc a brynir gennyh a'u rhoi mewn cwarantyn am 21 o ddiwrnodau fan leiaf. Dylid osgoi cysylltiad â stoc gyfagos drwy ffensio dwbl, gan gynnwys giatiaiu. Rhaid bod cyfleusterau diheintio ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio gan unrhyw un sy'n dod ar eich fferm, yn arbennig os byddant mewn cysylltiad â'ch anifeiliaid. Cadwch ddiollad diogelwch (esgidiau, dillad dal dŵr ac yn y blaen) ar wahân ar gyfer marchnadoedd a gwerthiant.

I gloi a chrynhoi

- Mae rheoli clefyd Johnne yn ymwneud ag adnabod a rheoli risg.
- Bydd mynd ati i reoli a chynllunio iechyd yn effeithiol yn helpu i reoli ac atal y clefyd.
- Ni ddylai rheoliadau organig beri unrhyw rwystr i reoli clefyd heintus - gwiriwch hyn â'ch corff ardystio os nad ydych yn siŵr.